

CYPE(5)-18-19 - Papur i'w nodi 1

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA L JM 405 19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99
1NA

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99
1NA

31 Mai 2019

Annwyl Lynne a Llŷr,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Gan fod y cam gweithredu gan bob Pwyllgor yn ymwneud â darparu manylion pellach am ddata'r heddlu a ddefnyddiwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, rwy'n rhoi un ymateb sy'n cwmpasu camau gweithredu'r ddau Bwyllgor.

Hyderaf y bydd y wybodaeth a ddarperir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgorau wrth i chi barhau i graffu ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn Gywir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ATODIAD

- ***Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi eglurhad pellach ynghylch a oedd ffigur amcangyfrifedig y Memorandwm Esboniadol o 274 o achosion o gosb resymol y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt bob blwyddyn yn cynnwys smacio yn unig, neu smacio fel rhan o amrywiaeth ehangach o ymddygiadau.***

Ar gais Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Uned Gyswilt yr Heddlu archwiliad o droseddau a gofnodwyd sy'n ymwneud ag Ymosod Cyffredin a Chreulondeb i Blant. Mae'r rhain yn ymwneud â throseddau a gofnodwyd yn ardaloedd pedwar heddlu Cymru. Nodir y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Uned Gyswilt yr Heddlu yn Atodiad 7 i'r Memorandwm Esboniadol. Mae heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer Troseddau Cofnodedig (HOC) yn unig.

Canolbwyntiodd y set ddata ar y canlynol:

- Ymosodiadau Cyffredin a Gofnodwyd (HOC 105/1) lle na fu anaf, (nid yw amddiffyniad cosb resymol yn cael ei dderbyn os oes anaf amlwg);
- Troseddau a Gofnodwyd sy'n ymwneud â Chreulondeb i Blant (HOC 11/3), gan fod ymosodiadau ar blant yn gallu ymddangos fel 'troseddau cudd' yn ystod ymchwiliad;

Chwiliwyd y data am droseddau yn erbyn plant gan ddefnyddio'r geiriau:

- Smacio ('Smacking');
- Slapio ('Slapping');
- Taro ('Hitting');
- Rheolaeth rhieni ('Parental control');
- Ceryddu ('Chastisement');
- Cosbi ('Punishment')

Drwy drafod ag Uned Gyswilt yr Heddlu rydym ar ddeall ei bod yn bosibl nad oedd y ffigur o 274 o achosion o gosb resymol, mewn rhai achosion, yn cynnwys achosion o gosb gorfforol yn unig ond y gallai fod yn rhan o set ehangach o faterion megis esgeulustod a chamdriniaeth.

- ***Gofynnodd Pwyllgor CYPE am nodyn manylach ar y gwahaniaethau rhwng y ffigurau o Seland Newydd ar gyfer erlyniadau o dan ddeddfwriaeth debyg a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac amcangyfrifon gan Uned Gyswilt yr Heddlu Cymru sy'n seiliedig ar ddata nas cyhoeddwyd.***
- ***Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid am y ffordd y cafodd nifer yr achosion o gosb resymol y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt ei hamcangyfrif a sut mae hyn yn cysylltu â nifer yr erlyniadau yng Nghymru bob blwyddyn.***

Defnyddiwyd y ffigurau o Seland Newydd a nodir yn y Memorandwm Esboniadol i amcangyfrif nifer yr *erlyniadau* a allai ddigwydd yng Nghymru petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei phasio. Erlyn yw lle y caiff unigolyn ei gyhuddo ac y caiff yr achos ei ddwyn gerbron llys.

Defnyddiwyd y data gan yr heddlu i amcangyfrif nifer yr achosion y bydd angen i'r heddlu *ymchwilio* iddynt, o bosibl, os caiff y Bil ei basio. Er ein bod wedi gallu gweithio gyda'r heddluoedd i nodi'r data gorau posibl ar nifer y troseddau sy'n ymwneud â chosbi corfforol gan rieni, nid yw hyn wedi ein galluogi i nodi nifer yr achosion a fyddai'n debygol o gael eu dwyn gerbron y llys. Y rheswm dros hyn yw y byddai'r rhan fwyaf yn cael eu datrys cyn cyrraedd y cam hwnnw. Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydbwyso ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn yn ofalus iawn. Maent yn ystyried y dystiolaeth a'r hyn sydd er budd y cyhoedd a fydd yn cynnwys yr hyn sydd er budd y plentyn. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd yr heddlu yn cymryd unrhyw gamau pellach. Mewn achosion eraill mae'n bosibl yr ymdrinnir â throsedd drwy warediad y tu allan i'r llys a allai gael ei gynnig gan yr heddlu.

Roedd y data a gasglwyd gan heddlu Seland Newydd yn benodol ar gyfer monitro effaith y newid yn y gyfraith ac roedd yn cynnwys data ar nifer yr erlyniadau. Felly, rydym wedi defnyddio data Seland Newydd fel procsi i amcangyfrif nifer yr erlyniadau a allai ddigwydd petai'r gyfraith yng Nghymru yn newid.

Nodir manylion pellach am y ffordd y datblygwyd y ffigurau hyn yn y Memorandwm Esboniadol. Cyfeiriaf hefyd at y ffigurau hyn yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 25 Ebrill.

Data Seland Newydd ar erlyniadau

Yn Seland Newydd, daeth Deddf Diwygio Troseddau (Adran 59 a Amnewidiwyd) 2007 [Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act 2007] i rym ar 22 Mehefin 2007. Diben y ddeddfwriaeth oedd atal rhieni rhag defnyddio grym i gosbi plant.

Yn Seland Newydd cyhoeddodd yr heddlu ddata ar nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt yn y tri mis cyn i'r gyfraith newid a'r pum mlynedd ar ôl hynny.

Gan nad oes unrhyw ddata dibynadwy eraill i amcangyfrif nifer yr erlyniadau a allai ddigwydd yng Nghymru o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, mae data'r heddlu o Seland Newydd wedi'u defnyddio fel procsi i amcangyfrif nifer yr achosion a allai gael eu herlyn yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Datblygwyd asesiad o'r effaith ar gyfiawnder mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd hyn yn cynnwys amcangyfrif y costau i'r system gyfiawnder gan ddefnyddio data Seland Newydd fel procsi. Cytunwyd ar y dull hwn o weithredu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Er bod Cymru a Seland Newydd yn rhannu nifer o nodweddion tebyg, gyda'r ddwy awdurdodaeth yn seiliedig ar gyfraith gwlad, ceir nifer o wahaniaethau hefyd, y mae

angen eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwahaniaethau rhwng y Ddeddfwriaeth yn Seland Newydd a'r hyn a gynigir yng Nghymru;
- Mae systemau gorfodi'r gyfraith yn Seland Newydd yn wahanol i'r hyn a geir yng Nghymru;
- Oedran y plentyn a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth;
- Gwahaniaethau rhwng poblogaethau'r ddwy wlad;
- Cymorth rianta a chodi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

Yn ystod pum mlynedd y cyfnod adolygu, cafwyd wyth erlyniad am 'smacio' a 55 am 'fân-gamau disgyblu corfforol', sef cyfanswm o 63 o erlyniadau yn Seland Newydd. Felly, oherwydd y gwahaniaethau rhwng maint y poblogaethau yng Nghymru a Seland Newydd, rydym wedi amcangyfrif y bydd 37 neu 38 o erlyniadau dros gyfnod o bum mlynedd yng Nghymru.

Yn Seland Newydd ni fu unrhyw ymgyrch addysgol benodol nac unrhyw ymgyrch benodol yn y cyfryngau i esbonio'r newid yn y gyfraith. Yng Nghymru, rydym wedi gwneud ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith (os caiff ei basio) ac, felly, rydym yn rhagweld y byddai nifer yr achosion a gaiff eu herlyn yn lleihau dros amser.

Esbonnir hyn ymhellach ar dudalennu 8-9 o'r Aseiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ac ym Mhennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol.

Data'r heddlu ar ymchwiliadau

Cynhaliodd y pedwar heddlu yng Nghymru, ar y cyd ag Uned Gyswilt yr Heddlu, archwiliad ôl-syllol o droseddau a gofnodwyd yn ymwneud ag Ymosod Cyffredin a Chreulondeb i Blant a oedd yn cwmpasu cyfnod o 19 mis (Ebrill 2017 – Rhagfyr 2018). Hidlodd yr heddlu y wybodaeth drwy ddefnyddio'r termau penodol a nodir uchod, lle roedd y troseddwr yn oedolyn a'r dioddefwr yn blentyn, a lle roedd y bwloch oedran rhwng y ddau yn fwy na 3 blynedd.

Dadansoddodd yr heddlu sampl o'r canlyniadau â llaw er mwyn canfod pa gyfran a oedd yn ymwneud â chosb resymol, a nodwyd bod un o bob saith/wyth yn ymwneud â'r drosedd honno, yn dibynnu ar yr heddlu penodol. Nododd yr heddlu faint sampl i'w adolygu a oedd yn ddigon mawr i roi lefel hyder o 95% yn ei amcangyfrif y byddai 274 o droseddau a gâi eu nodi gan y chwiliad yn ymwneud â chosb gorfforol. Byddai lwfans cyfeiliornad bach (± 25 o droseddau) yn gysylltiedig â'r amcangyfrif hwn.

Cyfrifwyd maint posibl y cynnydd drwy gyfeirio at ddata Seland Newydd, ar y sail y byddai achosion a oedd wedi'u dosbarthu yn Seland Newydd fel 'smacio' neu 'fân-gamau disgyblu corfforol' yn cyfateb, fwy na thebyg, i droseddau ar lefel 'cosb resymol' yng Nghymru. Mae'r tabl ym Mhennod 8 (sydd â'r Pennawd Heddlu) o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio, ar gyfartaledd, fod achosion yn digwydd ddwywaith yn amlach yn y pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn yn Seland Newydd. Mae cynnydd cyfartalog wedi'i ddefnyddio am nad oedd cyfnodau adrodd yn Seland Newydd yn unffurf dros y cyfnod adrodd o bum mlynedd.

Drwy'r Grŵp Gweithredu caiff rhagor o waith ei wneud gyda'r heddlu, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i gytuno ar y dull o gasglu data cyn i'r gyfraith newid (os caiff y Bil ei basio) ac ar ôl hynny, gyda'r bwriad o ddatblygu'r llinell sylfaen a gofynion monitro yn y dyfodol.